# Cyfarfod Uwchgyfeirio

# y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Microsoft Teams

17 Mawrth 2021

| Yn bresennol | |
|---|---|
| **Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | |
| Laura Armitt (LA) | Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Suzi Graham (SG) | Swyddog Polisi ac Ymchwil |
| Hannah Jenkins-Jones (HJJ) | Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb |
| Sarah Keefe (SK) | Swyddog Polisi |
| Lee Jones (LJ) **(CADEIRYDD)** | Prif Weithredwr |
| Nia Scourfield (NS) | Swyddog Cymorth Llywodraethu |
| Jayne Woodward (JW) | Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth |
| **Heddlu De Cymru** | |
| Y Prif Arolygydd Scott Lloyd (SL) | Prif Arolygydd – Arweinydd, Swyddog Rhaglen Ar-lein Unigol |
| Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Joanna Maal (JM) | Pennaeth Plismona Tiriogaethol |
| Caroline Smart (CS) | Pennaeth Rheoli Corfforaethol – Gwasanaethau Corfforaethol |
| Carol Woodward (CW) | Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu – Gwasanaethau Corfforaethol |

| | Eitem | Cynnwys |
|---|---|---|
| 1. | **Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | 1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. |
| 2. | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Cynrychiolaeth BAME Chwefror** | 2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod at wraidd y mater blaenorol yn gofnod gwir. Penderfynwyd y dylid ymdrin â'r camau gweithredu y tu allan i'r cyfarfod, ac y byddai'r argymhellion yn cael eu trafod fel eitem ar yr agenda yn nes ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | 2021 | |
| 3. | Diweddariad am AFR | 3.1 Gwnaeth LJ wahodd SL i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am Adnabod Wynebau Awtomataidd (AFR). Rhoddodd SL y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa gyfredol yr ymgynghoriad a dyfarniad Bridges a gynhaliwyd yn ystod haf y llynedd. Cyfeiriodd SL at yr ymgynghoriad cyhoeddus a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Mai 2021 am gyfnod o dair wythnos. Nododd SF y byddai hyn yn galluogi Heddlu De Cymru i goladu'r ymatebion cyn i Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig Technoleg Adnabod Wynebau Byw y Coleg Plismona ddod yn ddogfen fyw.<br><br>3.2 Rhoddodd SL drosolwg o'r ddogfen a nododd y byddai'n cyfleu sut y dylai technoleg AFR gael ei defnyddio a sut y dylid ystyried prosesau llywodraethu ac atebolrwydd y dechnoleg hon, gan gynnwys drwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nododd hefyd y byddai'r ddogfen yn cyfleu sut y dylai'r heddlu gyrraedd safon ddisgwyliedig benodol. Roedd SL yn gobeithio y byddai hyn yn rhoi tawelwch meddwl i gymunedau ac yn ennyn eu hymddiriedaeth.<br><br>3.3 Holodd LJ unwaith eto am bryderon ynghylch proffilio hiliol gyda'r dechnoleg ac a oedd hyn yn cael sylw. Dywedodd SL fod yr heddlu yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddeall tuedd bosibl a sut y byddai'r dechnoleg hon yn datblygu ac yn newid dros amser i atal unrhyw duedd a ganfuwyd. Yna cyfeiriodd at yr heriau a wynebir o ran cyfleu hyn i'r cyhoedd a sut i roi tawelwch meddwl i gymunedau. Gofynnodd LJ am i ganlyniadau'r ymgynghoriad gael eu rhannu â swyddfa'r Comisiynydd er mwyn eu hadolygu. |
| 4. | Argymhellion o Gyfarfod at Wraidd y Mater: Cynrychiolaeth pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Heddlu De Cymru | 4.1 Cyfeiriodd HJJ at y tri argymhelliad yn ei hadroddiad a gofynnodd i'r bwrdd eu cymeradwyo. Roedd yr argymhellion yn adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf. Roeddent yn cynnwys yr angen i'r heddlu a thîm y Comisiynydd ddod at ei gilydd i adnewyddu'r strategaeth recriwtio a chynnydd ar gyfer Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, i Brif Swyddogion arweiniol friffio tîm y Comisiynydd ynghylch cynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas ag agweddau gwahanol ar y strategaeth, ac i'r amserlenni gael eu diweddaru'n barhaus mewn perthynas â holl feysydd y strategaeth.<br><br>4.2 Cytunodd y bwrdd i gyflawni'r argymhellion. |
| 5. | Adroddiad Sicrwydd Busnes:<br>(i) Crynodeb, trosolwg a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr argymhellion | 5.1 Rhoddodd HJJ wybod i'r Bwrdd bod ei thîm wedi cwblhau asesiad o'r holl argymhellion o'r ymchwiliad at wraidd y mater ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn diweddaru cynnydd a gosod graddau Coch/Oren/Gwyrdd. Roedd yr holl argymhellion yr ystyriwyd eu bod wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn wedi cael eu cyflawni.<br><br>5.2 Roedd rhai o'r asesiadau wedi cael eu cynnal yn dilyn cyfarfodydd diweddaru gydag arweinwyr pynciau. Gofynnodd HJJ i'r bwrdd ystyried y diweddariadau a thrafod y meysydd y nodwyd eu bod yn oren neu'n goch. Cyfeiriodd HJJ at bob argymhelliad yn unigol, gan ddechrau gyda Throseddau Casineb. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 5.3 Gofynnodd JM a ellid archwilio troseddau casineb tuag at swyddogion a staff am fod enghreifftiau o hyn wedi bod yn yr heddlu yn ddiweddar. Dywedodd HJJ ei bod wedi bod yn rhan o grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan yn flaenorol er mwyn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o droseddau casineb. Yn ystod yr adolygiad hwn, Heddlu De Cymru oedd yr unig heddlu yng Nghymru heb bolisi ar gyfer hyn. Ar y pryd, roedd yr heddlu wedi dweud bod hyn oherwydd y byddai'n mynd i'r afael ag achosion o droseddau casineb rhwng swyddogion/staff mewnol gan ddefnyddio'r polisi cyffredinol ar droseddau casineb. Roedd HJJ yn teimlo y gellid adolygu hyn nawr er mwyn amlinellu sut y byddai staff a swyddogion yn cael eu diogelu'n benodol pe baent yn profi hyn yn ystod eu gwaith. Cytunodd CS i archwilio hyn y tu allan i'r cyfarfod a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>5.4 Amlinellodd HJJ fod rhai themâu cyffredin ymhlith yr argymhellion gwahanol, gan gynnwys sut y gallai'r heddlu wella cyfathrebu ym mhob maes mewn perthynas â blaenoriaethu adborth i ddioddefwyr agored i niwed. Roedd un o'r argymhellion a oedd yn weddill hefyd yn ymwneud â sicrhau bod hyfforddiant ar Ddatganiad Personol Dioddefwyr yn glir i swyddogion. Roedd tîm y Comisiynydd yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnig hyfforddiant roedd yr adran Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gyflwyno er mwyn cyfleu'r wybodaeth hon yn gliriach i swyddogion. Cytunodd CS i ofyn i ACC Thorne am ddiweddariad ar statws yr hyfforddiant.<br><br>5.5 Roedd angen parhau i weithio i hybu profiadau uniongyrchol dioddefwyr fel rhan o hyfforddiant swyddogion ac i'r cyhoedd hefyd. Dywedodd CS y byddai amcan y dioddefwr yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Cyflawni newydd y Prif Gwnstabl. Nododd CW fod yr heddlu yn gobeithio cael recordiadau fideo o adborth dioddefwyr fel rhan o becynnau hyfforddiant swyddogion ar droseddau casineb. Cytunodd CS fod angen i leisiau dioddefwyr gael eu clywed ac y dylid cynnwys hyn mewn nifer o gyrsiau hyfforddi. Awgrymodd LJ y gallai'r heddlu a thîm y Comisiynydd ystyried ffyrdd o hybu straeon dioddefwyr. Gofynnodd HJJ i aelodau'r bwrdd ystyried sut y gallai'r tîm cyfathrebu weithio gyda thîm y Comisiynydd i ddangos canlyniadau cadarnhaol i gymunedau a phrofiadau dioddefwyr drwy'r broses er mwyn cynyddu hyder yn yr adroddiad.<br><br>5.6 Cyfeiriodd HJJ at yr argymhelliad ynghylch hyfforddiant cydraddoldeb gwell i Swyddogion Troseddau Casineb, gan ddweud ei bod yn ymddangos bod hyn yn angen parhaus nad yw wedi'i ddiwallu eto. Nododd y byddai'n rhaid sicrhau nad yw hyfforddiant i swyddogion troseddau casineb yn gyfyngedig i hyfforddiant mewnol ac awgrymodd y gallai darparwyr allanol gynnig hyfforddiant amgen a gwerthfawr ar faterion cydraddoldeb.<br><br>5.7 Trafododd y Bwrdd yr argymhelliad mewn perthynas ag ychwanegu is-gategorïau troseddau casineb at y system NICHE er mwyn galluogi dealltwriaeth fwy cywir o densiynau mewn cymunedau a lle i dargedu ymdrechion. Roedd HJJ yn teimlo bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei drafod ers blynyddoedd lawer a holodd a oedd yn debygol y gellid mynd i'r afael â hyn. Gofynnodd hefyd a ellid ychwanegu baneri at dudalennau NICHE pe na bai newid categorïau ar y system yn opsiwn. Cytunodd CS i holi tîm NICHE am statws y diweddariad a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>5.8 Cyfeiriodd HJJ at yr argymhellion ynghylch Stelcian ac Aflonyddu a gofynnodd sut roedd yr heddlu yn mesur effaith yr hyfforddiant |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) Y diweddaraf am ymgysylltu â chymunedau yn dilyn marwolaeth Mr Hassan | hwn. Eto, roedd yr angen i fesur effaith hyfforddiant wedi bod yn thema gyffredin mewn nifer o gyfarfodydd at wraidd y mater. Ychwanegodd LA fod hyfforddiant yn trosi i wybodaeth a gofynnodd a oedd yr heddlu wedi ystyried cynnal adolygiadau mewnol i asesu gallu pobl i gofio gwybodaeth o sesiynau hyfforddiant. Cyfeiriodd CW at adnodd 'Cognito', a oedd yn profi faint roedd pobl wedi'i ddysgu a'i ddeall mewn sesiynau. Nododd CW hefyd fod adolygiadau mewnol yn cael eu cynnal er mwyn gwella'r hyn roedd swyddogion yn ei ddysgu a'i ddeall o achosion stelcian ac aflonyddu. Teimlwyd y byddai'r system hon yn ateb y cwestiwn ynghylch mesur effaith hyfforddiant. Cytunodd y tîm i ddysgu mwy am y system hon.<br><br>5.9 Cyfeiriodd HJJ at argymhellion yr ymchwiliad at wraidd y mater mewn perthynas â llesiant a diwylliant, gan gynnwys sicrhau bod arolygon yn cael eu cynnal bob dwy flynedd, a holodd a fyddai arolwg eleni. Nododd CS fod ymrwymiad i lansio arolwg yn ystod yr hydref. Cadarnhaodd HJJ y gellid nodi bod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni hefyd felly.<br><br>5.10 Cyfeiriodd HJJ at ganlyniadau cwynion cyflogaeth a gwersi a ddysgwyd ohonynt a ph'un a ellid ystyried hyn yn ehangach ar draws yr heddlu drwy rannu gwersi a ddysgwyd rhwng timau mewnol. Cyfeiriodd JM at y bwrdd 'Gwersi a ddysgwyd' a nododd ei fod yn cael ei ehangu. Awgrymodd y gallai hwn fod yn fforwm i ystyried cwynion cyflogaeth. Cytunodd yr Heddlu i rannu fformat y cyfarfodydd hyn ac ystyried a fyddai modd cynnwys yr argymhelliad hwn.<br><br>5.11 Rhoddodd HJJ wybod i'r bwrdd fod dau gyfarfod wedi cael eu cynnal gydag aelodau annibynnol y Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona yn dilyn marwolaeth Mr Hassan. Diben y rhain oedd trafod canfyddiadau parhaus y cyhoedd a thensiynau cymunedol. Dywedodd HJJ fod aelodau'r grŵp yn siomedig gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â chyfathrebu a'u bod am wybod sut y gellid gwella hyn. Nododd LJ fod y grŵp hefyd yn teimlo bod hen glwyfau wedi cael eu hailagor o ganlyniad i'r ffordd yr ymdriniodd yr heddlu ag ymgysylltu ynghylch y digwyddiad. Dywedodd LJ hefyd fod y grŵp wedi trafod dulliau eraill o ymgysylltu, yn enwedig drwy ysgolion a siopau, a holodd LJ a allai'r heddlu ddysgu o brofiadau uniongyrchol cymunedau. Roedd aelodau PALG o'r farn bod angen i'r heddlu ddangos bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Yn ogystal, dywedodd SG fod y grŵp wedi teimlo bod diffyg cydnabyddiaeth a dealltwriaeth gan yr heddlu o ran yr effaith ar y gymuned leol. Cydnabu JM yr heriau a chroesawodd yr adborth o'r achos penodol hwn. Diolchodd CS i dîm y Comisiynydd ac i PALG am yr adborth hwn a chytunodd y byddai hyn yn helpu i lywio dulliau cyfathrebu a gwersi a ddysgwyd yn y dyfodol. |
| 6. | Diweddariad am Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) | 6.1 Amlinellodd CW yr adroddiadau a gyhoeddwyd ers cyfarfod uwchgyfeirio mis Rhagfyr, a oedd yn cynnwys rhannu data at ddibenion mewnfudo, effaith y pandemig ar y system cyfiawnder troseddol, defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu a'r adroddiad thematig ar blismona protestiadau. Dywedodd CW fod Heddlu De Cymru yn parhau i gynllunio ar gyfer PEEL ac archwiliad cofnodi troseddau. Hefyd, cyfeiriodd CW at statws Datganiad Rheoli'r Heddlu a dywedodd fod Prif Swyddogion yn sicrhau ei ansawdd a byddai'n cael ei rannu â'r Comisiynydd ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | Unrhyw Fater Arall | 7.1 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol. |

Tabl Camau Gweithredu

| Dyddiad | Cyfarfod | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | CS i ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Polisi Troseddau Casineb ar gyfer staff a swyddogion Heddlu De Cymru a diweddaru tîm y Comisiynydd. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | SL i roi canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar AFR i dîm y Comisiynydd ar ôl iddo gael ei gwblhau. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Yr heddlu i rannu Datganiad Rheoli'r Heddlu â'r Comisiynydd ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Yr Heddlu i rannu fformat y cyfarfodydd Gwersi a Ddysgwyd ac ystyried a fyddai modd cynnwys yr argymhelliad hwn. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Tîm y Comisiynydd i drefnu sesiwn arddangos gyda'r heddlu er mwyn dysgu mwy am y system 'Cognito'. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Yr heddlu i holi a ellid ychwanegu baneri ar gyfer is-gategorïau troseddau casineb at NICHE. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Yr heddlu i rannu statws y cynnig ynghylch yr hyfforddiant ar Ddatganiadau Personol Dioddefwyr – ACC Thorne i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| 17.03.21 | Cyfarfod Uwchygyfeirio | Yr heddlu i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r argymhelliad i dynnu sylw at opsiynau a chysylltu achosion o stelcian ac aflonyddu drwy adnodd Gwybodaeth Busnes. |